# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 10 Gorffennaf 2014 i'w hateb ar 15 Gorffennaf 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Lynne Neagle (Torfaen):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r effaith y mae'r broses o drosglwyddo i'r Taliad Annibyniaeth Bersonol yn ei chael ar bobl yng Nghymru? OAQ(4)1809(FM)

2. **Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y gyllideb ar gyfer dysgu Cymraeg i Oedolion? OAQ(4)1803(FM)**W**

3. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar weithdrefnau unioni cwynion y GIG yng Nghymru? OAQ(4)1799(FM)

4. **Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio lesddeiliadaethau? OAQ(4)1796(FM)

5. **Gwyn Price (Islwyn):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo twristiaeth yn Islwyn? OAQ(4)1802(FM)

6. **Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddyfodol trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)1808(FM)

7. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bwysigrwydd sioeau amaethyddol, fel Sioe Frenhinol Cymru, i Gymru? OAQ(4)1798(FM)

8. **Julie James (Gorllewin Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â digartrefedd a chysgu ar y stryd yng Nghymru? OAQ(4)1801(FM)

9. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faint o weithiau y mae Llywodraeth

Cymru wedi cael gorchymyn i ddatgelu gwybodaeth yn dilyn apêl i'r Comisiynydd Gwybodaeth? OAQ(4)1806(FM)

**10. Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal ynghylch Prifysgol Glyndŵr? OAQ(4)1805(FM)**W**

**11. Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl hŷn? OAQ(4)1800(FM)

**12. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Beth yw'r risgiau a'r manteision i Gymru o bartneriaeth drawsatlantig bosibl ar gyfer masnach a buddsoddi? OAQ(4)1810(FM)

**13. David Rees (Aberafan)**: Beth yw cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau'r canllawiau cynllunio mewn perthynas â chloddio glo brig? OAQ(4)1811(FM)

**14. Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gamau i hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg? OAQ(4)1812(FM)**W**

**15. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y polisïau ar gyfer adfywio y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflawni yn 2014? OAQ(4)1804(FM)